



# HARBWR SAUNDERSFOOT

*a*

## Chanolfan Arfordirol Rhyngwladol Cymru

### Rheolwr Harbwr

Swydd: Llawn amser

Cyflog: £30k - £35k

Mae Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot wedi arwain strategaeth buddsoddi sylweddol i ddatblygu cyfleusterau presennol yr harbwr, yn ogystal â gwario £10 miliwn ar ailddatblygu ei asedau ar y tir, i sefydlu Canolfan Arfordirol Rhyngwladol Cymru. I gynnal y cyfleusterau newydd hyn, mae'r Harbwr am gyflogi Rheolwr Harbwr i ymuno â'i dîm profiadol, a fydd yn atebol i'r Prif Swyddog Gweithredol gan weithio mewn partneriaeth gyda'r rheolwr tîm ar y safle i ddatblygu cyfleusterau'r Harbwr a'r Ganolfan Arfordirol Rhyngwladol Cymru newydd i fod yn gyfleuster meincnod i Gymru gyfan.

### Profiad/Sgiliau

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol sgiliau perthnasol a phrofiad yn y mwyafrif o'r meysydd canlynol:

1. Wedi bod mewn swydd flaenorol naill ai ar lefel weithredol uwch, ar lefel arwain tîm neu reoli oddi fewn i'r diwydiant morol.
2. Yn meddu ar gymhwyster yn ymwneud â'r diwydiant oddi fewn i Borthladdoedd/Hamdden Morol neu Harbwr.
3. Yn y gorffennol wedi rheoli cyfleusterau gweithredol yn unol â pholisïau cenedlaethol a deddfwriaeth berthnasol i'r swydd megis Diogelwch Morol Porthladd a materion amgylchedd morol.
4. Wedi datblygu a gorfodi rheoliadau megis is-ddeddfau, rheoliadau harbwr, diogelwch dŵr, a Hysbysiadau i Forwyr.

5. Profiad o ran monitro a chynnal asedau a chyfarpar morwrol ac ar y glannau, megis angorfeydd, docfeydd cei, a badau hamdden a masnachol, i sicrhau cydymffurfio â'r Cod Diogelwch Morol Porthladd.
6. Profiad o gynllunio, trefnu, a chydlynu timau o staff a chontractwyr allanol.
7. Rheoli materion amgylcheddol a digwyddiadau megis arllwys cemegolion, yn ogystal â rheoli rheolaeth gwastraff yn unol â deddfwriaeth gyfredol.
8. Cysylltu â chyrrff y llywodraeth megis NRW / MCA / HSE a'r Gwasanaethau Brys.
9. Datblygu strategaethau i wella cynhyrchiant ac incwm; paratoi adroddiadau ariannol misol fel rhan o'r cyfrifon rheoli busnes cyffredinol; monitro cyflawniadau i gyrraedd y targedau ariannol angenrheidiol; a defnyddio CMS / cronfeydd data ar gyfer dadansoddi incwm a gwariant.
10. Yn gyfarwydd â chyflawni, gydag ymrwymiad i ansawdd a chyflawni ar amser. Dangos lefelau uchel o egni personol a brwdfrydedd, gan greu yn yr un modd ymhlith yr unigolion o'u cwmpas yn y gweithle.
11. Sgiliau cyfathrebu geiriol ac ysgrifennu da, a lefel uchel o hyfedredd wrth ddefnyddio Microsoft Office gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu, wrth ddefnyddio Word, Access, Outlook, PowerPoint ac Excel a phecynnau arbenigol tebyg eraill CMS.
12. Arweinydd tîm gweithredol a chefnogol, bydd deilydd y swydd yn hyrwyddo gwasanaeth cwsmer rhagorol mewn modd proffesiynol ac effeithlon.

## **Dyletswyddau**

Wrth gefnogi Prif Swyddog Gweithredol yr Harbwr bydd y Rheolwr Harbwr yn cyflawni'r dyletswyddau canlynol, ac unrhyw rai eraill a allai fod yn berthnasol i sicrhau gweithrediad cynhyrchiol a diogel o'r gyrchfan dwristaidd a hamdden, a masnachol:

- Rheoli cyfleusterau morol Harbwr Saundersfoot sy'n gweithredu 365 diwrnod y flwyddyn.
- Rheoli'r harbwr yn unol â pholisïau cenedlaethol a deddfwriaeth berthnasol i'r swydd, megis Cod Diogelwch Morol Porthladd a materion amgylchedd morol.
- Cyfrifoldeb am swyddogaethau morol yn cynnwys gorfodi is-ddeddfau, Rheoliadau Harbwr, diogelwch dŵr a Hysbysiadau i Forwyr.
- Monitro a chynnal holl asedion morwrol a glannau a chyfarpar oddi fewn i'r Harbwr, ac asedau cysylltiol ar y tir.
- Cynllunio, trefnu, rheoli a chydlynu'r holl waith a gweithgareddau oddi fewn i'r gweithredu morol gan gynnwys, angorfeydd, docfeydd cei, a badau hamdden a masnachol, i sicrhau cydymffurfio â'r Cod Diogelwch Morol Porthladd.
- Goruchwylio contractwyr ar y safle a hawlenni gwaith.
- Ymgymryd â rheoli digwyddiadau yn effeithiol a chysylltu â'r NRW / MCA / HSE a'r Gwasanaethau Brys pan fo angen.

- Paratoi a rheoli cynllun ymateb i ollwng olew yn yr Harbwr a chyfarwyddo'r glanhau o unrhyw olew neu ddigwyddiad llygredd arall yn unol â'r holl reoliadau perthnasol.
- Sicrhau glendid a thaclusrwydd cyffredinol yr harbwr, yn cynnwys paratoi a gweithrediad cynllun gweithredol ar gyfer rheoli gwastraff yn unol â deddfwriaeth gyfredol.
- Cydymffurfio â Pholisi Iechyd a Diogelwch yr HSE, a sicrhau bod eraill yn gwneud yr un modd.
- Adnabod ac adrodd ar gyfleoedd i wella perfformiad ariannol ymhellach.
- Cefnogi'r Swyddog Cyllid a Gweinyddu wrth baratoi cyflwyno cyfrifon misol a blynyddol, cyflwyno cyfrifon rheoli, a chadw golwg ar gyflawniadau er mwyn cyrraedd y targedau ariannol angenrheidiol.
- Rheoli derbyniadau ariannol a'u casglu, sy'n cynnwys derbyniadau meysydd parcio.
- Cysylltu â rhanddeiliaid a defnyddwyr Harbwr Saundersfoot, gan gynnwys asiantaethau llywodraeth ac eraill nad ydyn nhw'n rhan o'r llywodraeth, a mynychu cyfarfodydd a chymryd lle'r PW.
- Rhwydweithio â harbyrau, porthladdoedd a chyrrff proffesiynol eraill i sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf am y tueddiadau cyfredol oddi fewn i'r diwydiant.
- Cefnogi'r PW wrth weinyddu'r datblygiadau a'r cyfleusterau presennol yn ogystal ag eiddo'r dyfodol.

Dylai fod gan yr ymgeisydd Drwydded Yrru lawn hefyd.

I ymgeisio, anfonwch eich CV at [cmills@saundersfootharbour.co.uk](mailto:cmills@saundersfootharbour.co.uk)

**Dyddiad cau:** Llun 27 Mehefin 2022 (hanner dydd).